

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref: PO/2023/69

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

1 Mawrth 2023

Annwyl Huw

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror yn gofyn am wybodaeth bellach, ar ôl imi fynychu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ddiweddar mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 (gwariant mewn perthynas â chyfiawnder) a chraffu cyffredinol.

Mae fy ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn eich llythyr i'w weld yn Atodiad A.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A

Cyfiawnder

C1. Yn eich gohebiaeth at y Pwyllgor, fe wnaethoch ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i greu system dribiwnlysoedd wedi'i moderneiddio i Gymru. A allwch chi roi unrhyw newyddion ar y gwaith sydd ar y gweill i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth honno a phryd y gallem ddisgwyl iddi ddod gerbron y Senedd?

Rydym wedi egluro yn "Sicrhau Cyfiawnder i Gymru" fod y Llywodraeth yn bwriadu deddfu i greu system fodern ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru. Ni allaf gynnig amserlen ddiffiniol ar gyfer amseru deddfwriaeth ar hyn o bryd gan fod hyn, wrth gwrs, yn ddarostyngedig i brosesau ar wahân ar gyfer datblygu Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Yn y cyfamser, rydym yn gweithio drwy argymhellion Comisiwn y Gyfraith i ddatblygu cynigion manwl ar gyfer diwygio, gan fanteisio ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer newid a sgysiau gyda'r rhai y mae'r agenda ddiwygio yn effeithio arnynt. Fel cam nesaf rydym yn bwriadu mynd ati i ymgynghori ar ein dull gweithredu drwy Bapur Gwyn er mwyn llywio'r ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno.

Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

C2. A yw Llywodraeth Cymru yn dal i fwriadu defnyddio Bil Diogelu'r Amgylchedd (Plastigau Untro) (Cymru) fel enghraifft ymarferol mewn her gyfreithiol yn erbyn Deddf Marchnad Fewnol y DU (ar faterion nad ydynt yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol), ac os felly pa lwybr fyddwch chi'n ei ddefnyddio?

Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio Bil Diogelu'r Amgylchedd (Plastigau Untro) (Cymru) fel hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir iawn yn ei safbwynt ar Ddeddf Marchnad Fewnol y DU a'i gwrthwynebiad iddi, a byddwn yn parhau i fonitro ac ystyried cyfleoedd i herio.

C3. Gwnaethom eich holi'n fanwl am effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU (Cofnod y Trafodion 94-115). A allwch egluro beth yw'r problemau posibl gyda'r Ddeddf a phryd y gallech ddisgwyl iddynt godi?

Mae Llywodraeth Cymru wedi codi llawer o faterion gyda Deddf Marchnad Fewnol y DU ers iddi gael ei sefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys effaith drawsffiniol deddfwriaeth Lloegr sy'n cael ei phasio yn Senedd y DU yn ogystal â'r pwerau cymorth ariannol eang.

Pan fydd y Senedd yn pasio deddfwriaeth sylfaenol i greu gofynion rheoleiddio newydd yng Nghymru, rwyf wedi bod yn glir iawn ei bod yn gwneud hynny yn rhydd rhag Deddf Marchnad Fewnol y DU.

Rwyf yn deall na fydd eraill yn rhannu'r farn hon o bosibl, a dyma le y gall problemau godi yn y dyfodol.

C4. Yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar gynnig cydsyniad ar gyfer y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) ar 17 Ionawr, dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig: "Pan fo'r Senedd yn deddfu, maen nhw'n gwneud hynny'n rhydd o UKIMA, felly gellir gwneud deddfwriaeth Senedd sylfaenol mewn maes datganoledig yn rhydd o ofynion UKIMA" [Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, para 439]. Mae'n amlwg nad yw Deddf Marchnad Fewnol y DU yn effeithio ar gymhwysedd y Senedd i wneud deddfwriaeth,

ond ein pryder o hyd yw y gall y Ddeddf gael effaith ymarferol ar weithrediad deddfwriaeth o'r fath ar ôl iddi ddod i rym. A allwch chi nodi ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad nad yw darpariaethau mewn Deddf y Senedd yn;

- **'ofynion perthnasol' at ddibenion yr egwyddor cyd-gydnabod ar gyfer nwyddau yn adran 2 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU;**
- **'gofyniad deddfwriaethol' mewn perthynas â gwasanaethau, yn unol ag adran 17 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU?**

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw na all Deddf Marchnad Fewnol y DU fod wedi cael yr effaith y mae'n honni ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, h.y. atal y Senedd rhag gwahardd gwerthu amrywiaeth o eitemau yng Nghymru, oni bai bod yr un eitemau hynny hefyd wedi'u gwahardd ar draws y DU, neu oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi cytuno i eithriad penodol ar fater. Os byddai hyn yn wir, gallai hyn fod yn gyfystyr â chadw meysydd mawr o gymhwysedd yn ôl. O gofio statws Deddf Llywodraeth Cymru 2006 fel statud cyfansoddiadol, ac am fod y trefniadau datganoli yn rhan barhaol o strwythurau cyfansoddiadol y DU, ni ellid sicrhau hyn ond drwy welliant penodol. Mae gwneud fel arall - sef diwygio cymhwysedd trwy ymhlygiad - yn groes i'r egwyddor o gyfreithlondeb.

Y modd y mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn ceisio cyflawni'r effaith honedig a amlinellir uchod (a sefydlu pensaernïaeth gyffredinol y Ddeddf) yw drwy gyflwyno 'gofynion perthnasol' a 'gofynion deddfwriaethol' fel yr amlinellir yn eich cwestiwn. O gofio safbwynt Llywodraeth Cymru uchod – sef nad yw Deddf Marchnad Fewnol y DU wedi cael yr effaith honedig hon – mae'n dilyn na fydd darpariaethau yn neddfwriaeth y Senedd yn 'ofynion perthnasol' neu'n 'ofynion deddfwriaethol' at ddibenion adran 2 neu adran 17 o'r Ddeddf.

C5. O ystyried barn Llywodraeth Cymru ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl), a fyddwch yn ceisio eithrio technolegau genetig o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Neddf Marchnad Fewnol y DU os daw'r Bil yn gyfraith?

Cytunodd y Gweinidogion yn ddiweddar i adolygu'n ofalus ein hymagwedd ragofalus tuag at y technolegau hyn, lle y byddwn yn ystyried a oes tystiolaeth i gefnogi newid polisi yng Nghymru. Fel rhan o hynny, byddwn yn ystyried a oes angen eithriad yn achos UKIMA mewn perthynas â'r technolegau hyn a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor maes o law.

Cysylltiadau Rhynglywodraethol

C6. Mae nifer fawr o anghytundebau parhaus ynghylch deddfwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn enwedig ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir. A yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio'r mecanweithiau datrys anghydfodau rhynglywodraethol i fynd i'r afael â'r materion hyn? Os na, pam ddim? A yw'r mecanweithiau'n gwbl weithredol?

Rydym am weithio gyda Llywodraeth y DU yn bragmataidd – ar ddeddfwriaeth ac yn wir unrhyw faterion eraill – fel rhan o'r hyn a ddylai fod yn ymgysylltu rhynglywodraethol arferol. Gall y peirianwaith a sefydlwyd gan yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol ddarparu llwybrau uwchgyfeirio – trwy, er enghraifft, y Grwpiau Rhyngweinidogol ('IMGs') a sefydlwyd ar draws portffolios. Byddem yn gobeithio y dylai'r fforymau hyn fod yn ddigon i'n galluogi i godi pryderon a datrys anghytundebau heb fod angen cychwyn y broses o ddatrys anghydfodau yn ffurfiol. Er hynny, os na allwn ddod i gytundeb drwy'r trefniadau hyn, mae'r prosesau datrys anghydfodau ar waith ac yn dal ar agor inni.

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Nodwyd ymateb i gwestiynau 7 i 10 yn fy llythyr dyddiedig [10 Chwefror](#).

Hygyrchedd y Gyfraith

C11. Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer 2023-24 i wella hygyrchedd cyfraith Cymru?

Mae rhaglen pum mlynedd y Llywodraeth, *Dyfodol Cyfraith Cymru*, yn nodi manylion y prosiectau yr ydym ar hyn o bryd yn rhagweld y byddwn yn ymgymryd â hwy yn ystod y tymor hwn o'r Senedd. Mae hyn yn amodol ar werthuso ac adolygu parhaus, gan gynnwys asesu effaith pwysau deddfwriaethol eraill ar Lywodraeth Cymru. Nid ydym yn bwriadu nodi amserlen o weithgarwch o flwyddyn i flwyddyn i ategu'r rhaglen, yn bennaf am fod llawer o'r prosiectau'n rychwantu sawl blwyddyn. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r adroddiad blynyddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am gynnydd a wneir o dan y rhaglen ac os bydd newidiadau i'r rhaglen caiff y rhain eu gwneud yn unol ag adran 2(7) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

Er hynny, byddwch yn ymwybodol ein bod wedi dechrau ar y gwaith gyda'r Archifau Cenedlaethol ar ddiwedd 2021 ar y newidiadau technegol y mae eu hangen i swyddogaeth legislation.gov.uk i gefnogi anodiadau i ddeddfwriaeth. Parhaodd y gwaith hwnnw nes iddo fynd yn fyw ym mis Hydref 2022, ac ochr yn ochr â hynny roedd ein staff yn cael yr hyfforddiant cychwynnol ac atodol yr oedd arnynt ei angen er mwyn dechrau anodi. Mae gwaith ar anodi wedi hen ddechrau erbyn hyn. Er enghraifft mae bron yr holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Rhentu Cartrefi bellach ar gael ar ffurf gyfoes yn y ddwy iaith.

Gallaf hefyd ddweud wrth y Pwyllgor ein bod bellach yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Fil Cyfraith Statud (Diddymiadau) drafft (Cymru) ac yn disgwyl cyflwyno Bil i'r Senedd cyn toriad yr haf.

C12. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i gydgrynhoi cyfraith cynllunio?

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ar baratoi'r Bil i gydgrynhoi cyfraith gynllunio, ond mae cryn dipyn i'w wneud eto. Rydym yn edrych ar Fil a fydd yn cydgrynhoi rhannu sylweddol o'r llyfr statud a bydd yn cymryd amser i wneud hynny yn iawn. Bydd y bwriad i gyflwyno'r Bil hwnnw yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol yn ystod datganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn y dyfodol gan y Prif Weinidog.

C13. Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran cydgrynhoi ac ail-wneud Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007?

Mae'r sefyllfa'n parhau fel y nodais yn yr adroddiad blynyddol i'r Senedd ym mis Hydref 2022: mae gwaith yn mynd rhagddo, a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar ddrafft o'r Gorchymyn arfaethedig maes o law.

C14. Sut caiff hygyrchedd y gyfraith ei ystyried pan fydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid cytuno i Filiau'r DU wneud darpariaethau mewn meysydd datganoledig? A oes unrhyw fath o asesiad risg neu asesiad tebyg yn cael ei gynnal?

Rydym bob amser yn dechrau o'r safbwynt y dylai deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig gael ei gwneud yn y Senedd, gyda hygyrchedd y gyfraith yn un o'r egwyddorion sy'n sail i hynny. Bydd unrhyw benderfyniad i gytuno i ddarpariaeth sy'n cael ei

gwneud mewn Bil y DU, yn unol â'n hegwyddorion, felly'n cynnwys dadansoddiad o'r gwahanol ffactorau perthnasol gan gynnwys hygyrchedd ond hefyd fanteision posibl o gyflwyno darpariaeth, fel y nodir yn ein hegwyddorion.

Deddfwriaeth

C15. A oes unrhyw feysydd polisi yr ydych yn rhagweld y bydd angen maint sylweddol o is-ddeddfwriaeth ar eu cyfer dros y 12 mis nesaf

C16. Pa is-ddeddfwriaeth sylweddol, os o gwbl, y mae'n rhaid ei chyflwyno yn y flwyddyn galendr hon, efallai i weithredu Deddfau a basiwyd gan y Senedd yn y blynyddoedd diwethaf neu oherwydd bod yn rhaid gwneud rheoliadau newydd neu ddiweddarau rheoliadau?

C17. A oes gan Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd restr o flaenoriaethau o ran is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid ei gwneud, neu a fydd yn cael ei gwneud, yn 2023? Os oes gan Lywodraeth Cymru restr o flaenoriaethau, sut y bydd yn dad-flaenoriaethu, neu pa gynlluniau wrth gefn sy'n cael eu rhoi ar waith, os oes angen symud ffocws adnoddau'r llywodraeth i ddrafftio is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i achub neu ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir?

Fel y nododd y Prif Weinidog yn ei Ddatganiad Deddfwriaethol ym mis Gorffennaf, mae rhaglen ddeddfwriaeth y Llywodraeth yn cynnwys is-ddeddfwriaeth sylweddol, y mae llawer ohoni'n cyfrannu at roi Deddfau Senedd Cymru ar waith. Mae hyn yn cynnwys is-ddeddfwriaeth i roi Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar waith, diwygio anghenion dysgu ychwanegol a Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) sydd wedi cyrraedd Ôl-Gyfnod 4. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i roi Deddfau Llywodraeth y DU ar waith.

Mae'r rhaglen yn cael ei hadolygu'n barhaus ac er nad oes modd asesu'n llawn graddfa effaith REUL nes y byddwn yn gwybod manylion cynlluniau Llywodraeth y DU, rydym yn ystyried y goblygiadau posibl y gallai eu cael ar waith arfaethedig Llywodraeth Cymru.